

Polisi Gweinyddu Meddyginiaeth Ysgol Y Berllan Deg

Mae corff llywodraethu a staff Ysgol Y Berllan Deg yn dymuno sicrhau bod disgyblion ag anghenion meddyginiaeth yn derbyn gofal a chefnogaeth briodol yn yr ysgol. Bydd y Pennaeth yn derbyn cyfrifoldeb mewn egwyddor am aelodau o staff yr ysgol yn rhoi neu'n goruchwyllo disgyblion sy'n cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn ystod y diwrnod ysgol lle mae'r aelodau hynny o staff wedi gwirfoddoli i wneud hynny.

Sylwch y dylai rhieni gadw eu plant gartref os ydynt yn sâl iawn neu'n heintus.

1. Rhieni sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr i'r Pennaeth am gyflwr a meddyginiaeth y disgybl.
2. Ni fydd moddion presgripsiwn yn cael eu derbyn yn yr ysgol heb gyfarwyddiadau ysgrifenedig a chyflawn gan y rhiant.
3. Ni fydd staff yn rhoi meddyginiaeth heb ei ragnodi i blentyn oni bai bod hynny caniatâd ysgrifenedig penodol ymlaen llaw gan y rhieni.
4. Dim ond meintiau rhesymol o feddyginiaeth y dylid eu cyflenwi i'r ysgol (er enghraifft, cyflenwad o bedair wythnos ar y mwyaf ar unrhyw un adeg).
5. Pan fo disgybl yn teithio ar gludiant ysgol gyda hebryngwr, dylai rhieni sicrhau bod gan yr hebryngwr gyfarwyddiadau ysgrifenedig yn ymwneud ag unrhyw feddyginiaeth a anfonir gyda'r disgybl, gan gynnwys meddyginiaeth i'w rhoi yn ystod gofal seibiant.
6. Rhaid i bob eitem o feddyginiaeth gael ei ddanfôn i'r Pennaeth neu'r Person Awdurdodedig, dan amgylchiadau arferol gan y rhiant, mewn cynhwysydd diogel wedi'i labelu fel y'i dosbarthwyd yn wreiddiol. Rhaid i bob eitem o feddyginiaeth gael ei labelu'n glir gyda'r wybodaeth ganlynol:

Enw'r Disgybl.

- . Enw'r feddyginiaeth.
- . Dosbarh
- . Amllder gweinyddu.
- . Dyddiad dosbarthu.
- . Gofynion storio (os yw'n bwysig).
- . Dyddiad dod i ben.

Ni fydd yr ysgol yn derbyn eitemau o feddyginiaeth mewn cynhwysyddion heb eu labelu.

7. Cedwir meddyginiaeth mewn man diogel, allan o gyrraedd disgyblion. Oni nodir yn wahanol, bydd yr holl feddyginiaeth a roddir yn yr ysgol yn cael ei gadw mewn cwpwrdd meddyginiaeth dan glo.

8. Bydd yr ysgol yn cadw cofnodion a fydd ar gael i rieni.
9. Os bydd plant yn gwrthod cymryd meddyginiaeth, ni fydd staff yn eu gorfodi i wneud hynny, a byddant yn hysbysu'r rhieni o'r gwrthodiad, fel mater o frys, ar yr un diwrnod. Os bydd gwrthod cymryd moddion yn arwain at argyfwng, dilynr gweithdrefnau brys yr ysgol.
10. Cyfrifoldeb rhieni yw hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig os yw angen y disgybl am feddyginiaeth wedi dod i ben.
11. Cyfrifoldeb y rhieni yw adnewyddu'r feddyginiaeth pan fo cyflenwadau'n brin a sicrhau bod y feddyginiaeth a gyflenwir o fewn ei ddyddiad dod i ben.
12. Ni fydd yr ysgol yn gwneud newidiadau i ddosau ar gyfarwyddiadau rhieni.
13. Ni fydd staff yr ysgol yn cael gwared â moddion. Dylai meddyginiaethau, sy'n cael eu defnyddio ac sydd mewn dyddiad, gael eu casglu gan y rhiant ar ddiwedd pob tymor. Bydd meddyginiaethau gyda dyddiad sydd wedi dod i ben, neu'r rhai nad oes eu hangen mwyach, yn cael eu dychwelyd ar unwaith i'r rhiant i'w trosglwyddo i fferylllydd cymunedol i'w gwaredu'n ddiogel.
14. Ar gyfer pob disgybl ag anghenion meddyginiaeth hir dymor neu gymhleth, bydd y Pennaeth yn sicrhau bod Cynllun Meddyginiaeth a Phrotocol yn cael eu llunio, ar y cyd â'r gweithwyr iechyd proffesiynol priodol.
15. Lle mae'n briodol gwneud hynny, anogir disgyblion i roi eu meddyginiaeth eu hunain, o dan oruchwyliaeth staff, os oes angen. Gofynnir i rieni gadarnhau yn ysgrifenedig os ydynt yn dymuno i'w plentyn gario eu meddyginiaeth gyda nhw yn yr ysgol.
16. Bydd staff sy'n gwirfoddoli i gynorthwyo gyda gweinyddu meddyginiaeth yn derbyn hyfforddiant/arweiniad priodol trwy drefniadau a wneir gyda'r Gwasanaeth Iechyd Ysgolion.
17. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i barhau i roi meddyginiaeth i ddisgybl tra ar deithiau i ffwrdd o dir yr ysgol, hyd yn oed os bydd angen trefniadau ychwanegol. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan na fydd yn bosibl cynnwys disgybl ar daith ysgol os na ellir gwarantu goruchwyliaeth briodol.
18. Bydd yr holl staff yn cael gwybod am y gweithdrefnau i'w dilyn mewn achos o argyfwng.